# Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru

# Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth

## Medi 2012, diweddarwyd Tachwedd 2012

**Cynnwys**


Cyflwyniad........................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Y Berthynas rhwng y Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth a'r Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu .......................................................... 2

Nodau'r Strategaeth ........................................................................ 3

Gwybodaeth i'w chyfathrebu.................................................................. 3

Cynulleidfa darged ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu........................................ 4

Negeseuon allweddol i'w cyfathrebu........................................................... 4

Materion Cysylltiadau Cyhoeddus negyddol posibl ............................................. 6

Sianeli cyfathrebu ......................................................................... 6

Polisïau a Safonau........................................................................... 7

Partneriaethau .............................................................................. 9

Mesurau ar gyfer Gwerthuso ac Adolygu'r Strategaeth ........................................ 9

Crynodeb o weithgareddau i'w cyflawni a deunydd i'w gynhyrchu ................................ 10


*Mae'r cynnwys fel y nodwyd ym mhecyn ar-lein y Rhaglen LIFE, Taflen Ffeithiau Cyfathrebu ar Strategaethau Cyfathrebu.*


*Cefnogwyd yn ariannol gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd.*

## *Cyflwyniad*

Mae'n ofynnol i Raglen Natura 2000 LIFE a phob un o brosiectau natur LIFE+ gynhyrchu Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth. Bydd y strategaeth hon yn fframwaith a sail resymegol i holl waith cyhoeddusrwydd a chyfathrebu'r tîm prosiect, yn ogystal â darparu manylion am gamau gweithredu penodol a sut y cânt eu cyflawni. Bydd yn rhoi nod a chyfeiriad clir i'r prosiect allu cyfathrebu a rhoi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau mewn ffordd eglur, cydgysylltiedig a chyson.

Mae cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd allweddol am natur y prosiect, gwerth safleoedd Natura 2000, canfyddiadau a chanlyniadau, a gwersi a ddysgwyd yn elfen hanfodol o'r prosiect hwn a phroses LIFE+ yn gyffredinol. Ymhlith y cynulleidfaoedd hyn, mae rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, pobl sy'n gwneud penderfyniadau, rheolwyr safleoedd, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb. Mae gwneud yn siŵr bod staff CNC yn wybodus yn y materion hyn yn hollbwysig hefyd er mwyn sicrhau bod yr ymdrech gyfathrebu allanol yn llwyddiannus.

Trwy gyfathrebu'n dda, bydd y broses yn agored a thryloyw, a byddwn yn sicrhau bod pob parti â buddiant yn cael cyfle i ddod yn rhan o'r broses o ddrafftio'r Cynlluniau Gweithredu a'r Rhaglen. Bydd sicrhau cefnogaeth i'r cynlluniau, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn creu sylfaen gref i geisiadau ariannol yn y dyfodol a'r gwaith ymarferol dilynol.

Mae ystod o weithgareddau a safonau cyfathrebu yn ofynnol o dan amodau'r contract, neu'n ddisgwyliedig fel arfer da, a chânt eu disgrifio yn Narpariaethau Cyffredin LIFE a'r pecyn Cyfathrebu (gwefan Rhaglen LIFE http://ec.europa.eu/environment/life/toolkit/comtools/index.htm). Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y strategaeth.

## *Y Berthynas rhwng y Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth a'r Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu*

Mae'r Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth yn ymdrin â chyfathrebu anuniongyrchol un ffordd, h.y. negeseuon sy'n cael eu rhannu ar ffurf a fydd yn hysbysu'r cyhoedd ynglŷn â gwaith a chanlyniadau'r prosiect ond nad ydynt yn rhyngweithiol yn eu hanfod e.e. cylchlythyrau, datganiadau i'r wasg.

Mae'r Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu ac (Cam Gweithredu A.10) yn ymdrin â chyfathrebu uniongyrchol dwy ffordd, e.e. cyfathrebu drwy gyfrwng e-bost, ffôn ac wyneb yn wyneb mewn cyfarfodydd a gweithdai. Bydd yn galluogi rhanddeiliaid i gyfrannu at waith y prosiect, mynegi eu barn, rhoi sylwadau ac ymgynghori ar allbwn y prosiect, helpu i lywio a dylanwadu ar y canlyniadau a gweithio gyda'i gilydd i lunio atebion effeithiol. Dyma fydd prif ffordd y prosiect o gyfathrebu â rhanddeiliaid.

Bydd synergedd rhwng y ddwy strategaeth a bydd y gynulleidfa randdeiliaid yn debyg iawn ar gyfer y ddwy.

## *Nodau'r Strategaeth*

1. Sicrhau bod rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu yn cael y wybodaeth briodol i'w galluogi i gyfranogi'n llawn a chymell y teimlad eu bod yn rhan o'r prosiect ac wedi ymrwymo iddo.

2. Sicrhau bod unigolion a gynrychiolir gan grwpiau rhanddeiliaid (e.e. ffermwyr unigol a gynrychiolir gan NFU Cymru) yn ymwybodol o nodau a chanlyniadau'r prosiect, ac yn gallu cyfrannu drwy eu cynrychiolydd os dymunant.

3. Dylanwadu ar bobl sy'n gwneud penderfyniadau a llunwyr polisïau i ddarparu mwy o gefnogaeth i waith rheoli ac adfer Natura 2000, yn enwedig cefnogaeth ariannol.

4. Annog rheolwyr a pherchnogion safleoedd Natura 2000 i gefnogi'r rhaglen er mwyn hwyluso'r gwaith o'i rhoi ar waith yn gynnar.

5. Cynyddu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i amcanion y prosiect a Natura 2000 gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yn cynnwys cynulleidfaoedd newydd. Dangos sut y gwerir arian cyhoeddus a galluogi unigolion i gael rhagor o wybodaeth os oes angen.

6. Hybu gwarchod natur yng Nghymru a mannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd drwy rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd ag ymarferwyr a llunwyr polisi eraill, yn enwedig rhai sy'n gweithio ar brosiectau LIFE cyffelyb.

7. Cyflwyno deunydd mewn manylder, arddulliau a fformatau amrywiol i weddu i anghenion gwahanol gynulleidfaoedd.

8. Cynorthwyo staff y prosiect i ymdrin ag ymholiadau niferus am wybodaeth debyg a syml ynglŷn â'r prosiect, gan ddarparu gwasanaeth effeithlon ac arbed amser staff.

## *Gwybodaeth i'w chyfathrebu*

Isod, rhestrir y prif fathau o wybodaeth sydd i'w cyfathrebu gan y prosiect:

A. Gwybodaeth am brosiect Natura 2000 LIFE a'i weithgareddau, ei lwyddiannau, digwyddiadau sydd i ddod, cynnydd ac ati trwy gydol oes y prosiect;

B. Gwybodaeth am y canlyniadau a'r argymhellion a gynhyrchir gan y prosiect;

C. Copïau o'r adroddiadau, Cynlluniau Gweithredu a'r rhaglen ac unrhyw ddogfennau technegol eraill a gynhyrchir fel allbwn i'r prosiect;

D. Gwybodaeth am safleoedd Natura 2000 yng Nghymru, eu rôl yn diogelu bioamrywiaeth yn Ewrop a'r problemau cadwraeth a wynebant.

E. Gwybodaeth am raglen Natur LIFE+ a'i rôl ym maes cadwraeth yn Ewrop.

F. Data crai wedi'i greu neu ei goladu gan y prosiect yn ei ffurf wreiddiol, a chofnodion mewnol a dogfennau'r prosiect na fwriadwyd ar gyfer eu cyhoeddi. (Yn wahanol i A-E, ni chaiff y rhain eu cyfathrebu'n rhagweithiol. Oni bai eu bod yn sensitif neu'n gyfrinachol, byddant ar gael ar gais).

## *Cynulleidfa darged ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu*

| | **Cynulleidfa** | **Nodau perthnasol** | **Math o wybodaeth** | **Lefel o wybodaeth** |
|---|---|---|---|---|
| i. | Rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu – wedi'u nodi'n barod ac sy'n cyfrannu at y prosiect.<br>Caiff y rhanddeiliaid eu diffinio yn y Strategaeth Eiriolaeth a Chyfathrebu. | 1, 8 | A, B,C, D, E | Manwl |
| ii. | Unigolion a gynrychiolir gan grwpiau rhanddeiliaid (e.e. ffermwyr unigol a gynrychiolir gan NFU Cymru). | 3, 8 | A,B, D, E | Crynodeb a/neu yn fanwl |
| iii. | Pobl sy'n gwneud penderfyniadau, yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig, llunwyr polisïau, deiliaid grantiau, grwpiau buddiant ac ati (yn enwedig os nad ydynt yn cyfrannu yn ystod y prosiect fel rhanddeiliaid gweithredol) | 3,8 | A, B,C, D, E | Crynodeb a/neu yn fanwl |
| iv. | Rheolwyr/perchnogion safleoedd Natura 2000 | 4,8 | A, B. C, D, E | Crynodeb a/neu yn fanwl |
| v. | Y cyhoedd a threthdalwyr | 6,8 | A, B, D, E | Crynodeb |
| vi. | Eraill sy'n gweithio yn y sector cadwraeth, yn enwedig rhai sy'n cynnal neu'n trefnu i gynnal prosiectau tebyg. | 6,8 | A,B, C, D, E,F | Manwl |
| vii. | Staff mewnol CNC – rhai sy'n ymgysylltu â'r prosiect fel rhanddeiliaid a rhai a fydd yn rhoi gwybodaeth i eraill yn ei gylch e.e. drwy ateb galwadau, mynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd. | 1, 4, 8 | A,B, C, D, E,F | Crynodeb a/ neu yn fanwl |

**<u>Blaenoriaethau</u>**

Y brif flaenoriaeth yw sicrhau bod cyfathrebu eglur a chyson yn digwydd â rhanddeiliaid, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r gwaith mewn gwirionedd. Gan mai ymwneud â chynllunio y mae'r prosiect – yn hytrach na gwaith ymarferol – ychydig o ddiddordeb sydd i'r cyhoedd yn gyffredinol. Felly gallwn ganolbwyntio ar randdeiliaid a grwpiau buddiant.

## *Negeseuon allweddol i'w cyfathrebu*

<u>Nodau</u>

Nod y prosiect yw gwneud gwelliannau sylweddol i gyflwr rhywogaethau a nodweddion cynefin Natura 2000 drwy gynhyrchu rhaglen weithredu strategol wedi'i chostio a'i threfnu yn ôl blaenoriaethau ar gyfer rheoli ac adfer safleoedd Natura 2000 yng Nghymru dros y cyfnod 2014-2020 a thu hwnt.

Bydd y rhaglen yn creu llwyfan ar gyfer sicrhau mwy o gefnogaeth ariannol ar gyfer rheoli safleoedd Natura 2000 a helpu i integreiddio anghenion Natura 2000 mewn cynlluniau grant ac offerynnau ariannol eraill sydd eisoes yn bodoli.

Bydd CNC yn gweithio mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid i sicrhau cymaint â phosibl o gefnogaeth i'r rhaglen a'i galluogi i gael ei chyflawni'n fuan ac yn effeithiol. Gwahoddir rhanddeiliaid i fynychu cyfres o weithdai a chyfarfodydd, darparu gwybodaeth a chyfrannu eu harbenigedd a'u safbwyntiau er mwyn creu allbwn sy'n dderbyniol i bawb.

Amcanion

Bydd y prosiect yn casglu, coladu ac arfarnu tystiolaeth am risgiau i nodweddion Natura 2000, systemau rheoli cyfredol a phosibl, a ffynonellau cyllid. Bydd y tîm yn defnyddio'r dystiolaeth hon i gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu a fydd yn disgrifio camau gweithredu cyraeddadwy wedi'u costio ar gyfer safleoedd a themâu penodol.

Cyfunir gwybodaeth y Cynlluniau Gweithredu i greu rhaglen wedi'i threfnu yn ôl blaenoriaethau ar gyfer Cymru. Bydd cronfa ddata newydd yn sicrhau bod modd gweld, cwestiynu a diweddaru'r canlyniadau yn hawdd.

Safleoedd Natura 2000

Safleoedd Natura 2000 yw conglfeini gwarchod natur yng Nghymru. Y 92 Ardal Cadwraeth Arbennig a'r 20 Ardal Gwarchodaeth Arbennig yw'r enghreifftiau gorau o gynefin naturiol sy'n bodoli, ac maent yn cynnwys rhai o'r rhywogaethau mwyaf prin ac o dan fygythiad yn Ewrop.

Gweithreda'r safleoedd hyn fel cadarnleoedd i fywyd gwyllt allu lledaenu ohonynt yn fwy eang i gefn gwlad. Cyfrannant at ein goroesiad ninnau drwy storio carbon, glanhau a rheoli'r cyflenwad dŵr, chwyddo poblogaethau o beillwyr a chynnal ffermydd a physgodfeydd masnachol. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer mwynhau a gweithgareddau hamdden, ac yn ychwanegu at economi Cymru drwy dwristiaeth.

Rheolir llawer o safleoedd i safon uchel eisoes gan amrywiaeth o reolwyr yn cynnwys ffermwyr, sefydliadau gwirfoddol a chyrff cyhoeddus, ond mae cyfran sylweddol heb fod mewn cyflwr ffafriol oherwydd sawl math gwahanol o bwysau amgylcheddol a dynol. Rhaid rheoli ac adfer y safleoedd hyn yn ystyriol er mwyn iddynt allu ymdopi â newid yn yr hinsawdd a pharhau i fod yn rhan allweddol o dreftadaeth naturiol Cymru yn y tymor hir.

Sgript ar gyfer taflen a deunydd tebyg

- Helpwch ni i ddatblygu rhaglen ar gyfer rheoli ac adfer safleoedd bywyd gwyllt o bwysigrwydd Ewropeaidd. Mae'r prosiect yn ymwneud â gweithio'n agos â phob grŵp â buddiant yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn i'r rhaglen ddatblygu drwy gonsensws cyffredin.

- Bydd CNC yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob parti perthnasol yn dod yn rhan o'r gwaith ac yn cefnogi'r cynlluniau rheoli er mwyn i ni allu symud ymlaen yn gyflym i chwilio am ffynonellau ariannol i gychwyn y gwaith.

- Mae'r prosiect yn cynnwys pob safle Ewropeaidd – 20 Ardal Gwarchodaeth Arbennig a 92 Ardal Cadwraeth Arbennig. Dyma'r enghreifftiau gorau sydd gennym o gynefinoedd naturiol, cadarnleoedd y gall bywyd gwyllt ledaenu ohonynt yn fwy eang i gefn gwlad.
- Y canlyniad terfynol fydd rhaglen wedi'i chostio a'i threfnu yn ôl blaenoriaethau er mwyn sicrhau bod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael gofal mewn ffyrdd sy'n cyflawni statws cadwraethol ffafriol.
- Bydd y gwaith ymarferol yn digwydd rhwng 2014 a 2020 (a chymryd bod y ceisiadau ariannol yn llwyddiannus).
- Nid ar gyfer bywyd gwyllt yn unig y mae safleoedd Ewropeaidd yn bwysig. Maent yn cyfrannu at ein goroesiad ninnau drwy storio carbon, glanhau a rheoli'r cyflenwad dŵr, chwyddo poblogaethau o beillwyr a chefnogi ffermydd a physgodfeydd masnachol.
- Bydd safleoedd Ewropeaidd wedi'u rheoli'n dda mewn sefyllfa well i ymdopi â newid yn yr hinsawdd a pharhau i fod yn rhan allweddol o dreftadaeth naturiol Cymru yn y tymor hir.
- Ar hyn o bryd, mae gan tua 40% o'r safleoedd Ewropeaidd statws cadwraethol ffafriol neu adferol. Mae yna waith da'n cael ei wneud eisoes – dyma ein cyfle i adeiladu ar hyn.
- Hyrwyddir cyfeiriad y wefan yn gyson ac yn aml i ddangos sut y gall rhanddeiliaid ddod o hyd i wybodaeth fwy manwl ar ein gwefan.
- Byddwn yn cydnabod bod y prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol gan LIFE bob amser.

<u>Materion Cysylltiadau Cyhoeddus negyddol posibl</u>

Trwy fod yn ymwybodol o agweddau negyddol posibl, gallwn fynd i'r afael â nhw'n adeiladol a darparu atebion eglur ac ystyriol. Gallwn gynnwys y rhain ar y daflen Cwestiynau Cyffredin, y dylid ei diweddaru yn ôl yr angen. Dylid rhoi hon i staff i'w galluogi i ymdrin â materion a allai fod yn anodd.

## *Sianeli cyfathrebu*

Prosiect yn ymwneud â chynllunio a gweinyddu yw hwn, nad yw'n arbennig o hawdd ei gyfleu drwy'r cyfryngau torfol. Felly bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar hysbysu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy sianeli a dulliau mwy arbenigol.

Y bwriad yw defnyddio'r sianeli canlynol ar gyfer lledaenu gwybodaeth:

- Y Rhyngrwyd – gwefan CNC a fideos YouTube
- Cyhoeddiadau papur ac electronig a bwletinau a gynhyrchir gan y prosiect – e.e. taflen, adroddiad lleygwr, taflenni gwybodaeth, e-lythyr

- Cyhoeddiadau arbenigol – e.e. cylchgronau a chyfnodolion ffermio, bywyd gwyllt a physgota
- Cylchlythyrau'r rhanddeiliaid eu hunain
- Cyflwyniadau
- Hysbysfwrdd
- Digwyddiadau fel y Sioe Frenhinol, cynadleddau ac ati
- Dogfennau technegol (allbwn y prosiect) e.e. Cynlluniau Gweithredu, adroddiadau ac ati
- Systemau mewnol CNC ar gyfer lledaenu gwybodaeth e.e. mewnrwyd Ffenest, Ffynnon
- Ymateb i ymholiadau am wybodaeth
- Papurau newydd a radio – cyfyngedig i un neu ddau o ddatganiadau i'r wasg dros oes y prosiect

Lledaenir gwybodaeth ar ddwy lefel gyffredinol:-

**Gwybodaeth gryno** - caiff y deunydd ei gyflwyno mewn dull cryno, deniadol ac mewn iaith hawdd ei deall i gynulleidfaoedd â diddordeb mewn crynodeb lefel uchel yn unig o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r prosiect ac a grëwyd ganddo. At ei gilydd, cynhyrchir deunydd o'r fath yn benodol at ddibenion cyfathrebu a chyhoeddusrwydd. Dylai crynodebau gyfeirio at ffynonellau pellach o wybodaeth i rai sydd eisiau mwy o fanylder.

**Gwybodaeth fanwl** – dyma ddeunydd technegol a chymharol hir. Yn achlysurol bydd y prosiect yn cynhyrchu deunydd manwl yn benodol at ddibenion cyfathrebu, er enghraifft erthygl fanwl mewn cyhoeddiad arbenigol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, allbwn cynlluniedig y prosiect fydd y deunydd hwn, er enghraifft y Cynlluniau Gweithredu. Dylid cyfeirio'n eglur ato o gynnyrch cyfathrebu fel y wefan, adroddiad lleygwr ac ati, a dylai fod yn hygyrch (yn ddelfrydol, dylai fod modd ei lawrlwytho o'r wefan). Mae gwybodaeth fanwl yn cynnwys data crai hefyd ar y ffurf y'i casglwyd yn wreiddiol gan y prosiect.

## *Polisïau a Safonau*

<u>Y Gymraeg</u>

Cynhyrchir yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â pholisi Iaith Gymraeg CNC. Rhoddir yr un amlygrwydd i'r ddwy iaith.

Bydd adroddiadau technegol, data a deunydd arall a gynhyrchir fel rhan o allbwn y prosiect, ac a ddarperir wedyn i drydydd parti, e.e. drwy'r wefan, ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, lle bo'n briodol, caiff crynodeb ei gynnwys yn Gymraeg.

<u>Cydnabyddiaeth</u>

Rhaid cydnabod cefnogaeth CNC, Llywodraeth Cymru a LIFE ym mhob cynnyrch cyfathrebu yn cynnwys datganiadau i'r cyfryngau, cyhoeddiadau, cyflwyniadau, cyfweliadau ar gyfer y cyfryngau ac ati.

- Logos CNC a Llywodraeth Cymru
- Logos a datganiadau LIFE a Natura 2000

  Disgrifir y rhwymedigaethau llawn yn y Darpariaethau Cyffredin. Rhaid i bob deunydd cyfathrebu gyfeirio'n eglur at gymorth ariannol LIFE a chynnwys logos LIFE a Natura 2000, sydd i'w cael o'r dudalen we: http://ec.europa.eu/environment/life/toolkit/comtools/resources/logos.htm

  Ar gyfer deunydd clyweledol, bydd y clodrestri ar y dechrau neu'r diwedd yn cynnwys cyfeiriad amlwg a darllenadwy at gymorth LIFE (e.e. "Gyda chyfraniad LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd").

  Bydd y defnydd o logo LIFE yn gyfyngedig i weithgareddau lledaenu gwybodaeth. Hefyd, rhaid disgrifio pwysigrwydd y prosiect o ran sefydlu rhwydwaith Natura 2000. Rhaid cynnwys manylion gweithgareddau cyhoeddusrwydd ym mhob adroddiad ar weithgaredd prosiect.

Hygyrchedd

Bydd deunydd cyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â pholisïau a safonau hygyrchedd CNC (er enghraifft, ar gyfer pobl â nam ar eu golwg). Mae gwefan CNC yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd perthnasol ac mae'n ofynnol i bob tudalen newydd ddefnyddio'r templed safonol. Cymeradwyir pob cyhoeddiad gan y Rheolwr Cyhoeddi o ran lliw, cynllun a maint llythrennau.

Mynediad at Wybodaeth/Gwybodaeth Sensitif

Bydd y prosiect yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth 'mynediad at wybodaeth' berthnasol, yn cynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Diogelu Data a Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

Yn fwyaf arbennig, dylai pob gwybodaeth, data crai, papurau bwrdd y prosiect, dogfennau mewnol, cofnodion a negeseuon e-bost ac ati sydd wedi'u creu neu eu coladu gan y prosiect fod ar gael o fewn 20 diwrnod i dderbyn cais amdano, a rhoddir caniatâd i ailddefnyddio (yn cynnwys ailddefnyddio at ddefnydd masnachol) os oes angen, oni bai bod eithriadau penodol yn gymwys. Lle bynnag y bo'n addas, dylid sicrhau bod deunydd priodol ar gael ar-lein er mwyn i'r cyhoedd allu cael gafael arno'n hawdd.

Fodd bynnag, lle ceir eithriadau o ran mynediad agored at wybodaeth, bydd y prosiect yn osgoi cyhoeddi a rhyddhau gwybodaeth, ac yn cynnal cyfrinachedd drwy ddulliau priodol. Yn fwyaf arbennig, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am leoliad manwl rhywogaethau neu gynefin ar Restr Nodweddion Sensitif CNC, gwybodaeth am drydydd parti a ddarperir gyda chyfyngiadau ar fynediad a defnydd, a data personol fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data.

## *Partneriaethau*

Bydd tîm prosiect Natura 2000 LIFE yn gweithio'n agos ag arbenigwyr cyfathrebu CNC fel y disgrifir yn y blychau gweithredu.

Bydd cyfathrebu yn ymddangos yn rheolaidd ar agenda Grŵp Llywio'r Prosiect (bwrdd y prosiect) a Grŵp Rheoli'r Prosiect, er mwyn galluogi aelodau'r grwpiau i gyfrannu at y strategaeth a llywio cynnydd ac allbwn.

Anogir sefydliadau rhanddeiliaid i ddefnyddio eu cyfryngau eu hunain, e.e. cylchgronau, cylchlythyrau, rhestri cysylltiadau e-bost ac ati i gyfathrebu gwybodaeth am y prosiect a'i ganfyddiadau.

Hysbysir rhanddeiliaid perthnasol cyn cyhoeddi datganiadau i'r wasg a gweithgareddau cyfathrebu eraill os yw'n debygol y gallent greu ymateb cyhoeddus sylweddol.

## *Mesurau ar gyfer Gwerthuso ac Adolygu'r Strategaeth*

Cyflwynir y Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth i Grŵp Llywio'r Prosiect (bwrdd y prosiect) i'w chymeradwyo'n ffurfiol ym mis Medi 2012. Adroddir ar gynnydd y gwaith o'i gweithredu mewn cyfarfodydd dilynol o Grŵp Llywio'r Prosiect, a bydd aelodau'r grŵp yn gwerthuso ansawdd yr allbwn a chynnydd yn ôl amserlenni penodedig. Caiff unrhyw broblemau neu faterion sy'n codi eu trafod yn y cyfarfodydd, a phennir dulliau o'u datrys.

Bydd Rheolwr y Rhaglen yn adolygu'r Strategaeth hon yn rheolaidd ac yn ychwanegu ati, yn ei diwygio a'i diweddaru wrth i'r gweithgareddau lledaenu gwybodaeth fynd rhagddynt.

Asesir yr holl ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir i sicrhau bod y Negeseuon Allweddol wedi'u cynnwys a'i fod yn cydymffurfio â safonau eraill y Strategaeth.

Bydd adborth gan randdeiliaid sy'n dangos dealltwriaeth o'r Negeseuon Allweddol yn cael ei asesu'n barhaus.

Mae CNC yn defnyddio gwasanaeth monitro'r wasg a'r cyfryngau (pressdata) a fydd yn cofnodi unrhyw erthyglau'n ymwneud â'r prosiect a argraffir yn y wasg yn gyffredinol neu mewn cyhoeddiadau arbenigol. Cânt eu hanfon at Reolwr y Rhaglen, a gellir eu defnyddio i gofnodi a gwerthuso llwyddiant datganiadau i'r wasg.

## *Crynodeb o weithgareddau i'w cyflawni a deunydd i'w gynhyrchu*

| | Enw | Cam Gweithredu | Amser staff | Cyllideb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Strategaeth Ymwybyddiaeth a Lledaenu Gwybodaeth | E.2 | 4 diwrnod | £0 | 30 Medi12 |
| B | Tudalennau'r we | E.2 | 8 diwrnod | £0 | 31 Rhag 12 |
| C | Fideos You Tube | E.2 | | £5,074 am gontractwyr (30 diwrnod) | 31 Hyd 14 |
| D | Cylchlythyr – electronig, 5 rhifyn | E.3 | 19 diwrnod | £0 | 28 Chwe 13<br>31 Gor 13<br>31 Rhag 13<br>31 Mai 14<br>30 Tach 14 |
| E | Adroddiad lleygwr | E.3 | | £8,119 ar gyfer argraffu | 31 Rhag 14 |
| F | Cyflwyniadau PowerPoint | E.3 | | £0 | |
| G | Taflen prosiect | E.3 | | £0 | 30 Tach 12 |
| H | Taflen cwestiynau cyffredin | E.3 | | £0 | 30 Tach 12 |
| I | Lansio'r prosiect i'r cyfryngau | E.4 | 9 diwrnod | £0 | 30 Tach 12 |
| J | Datganiadau i'r cyfryngau | E.4 | | £0 | |
| K | Mynychu digwyddiadau cyfryngau | E.4 | | £0 | |
| L | Prif erthyglau – 3 | E.4 | | £0 | 31 Maw 13<br>31 Maw 14<br>31 Rhag 14 |
| M | Hysbysfwrdd | E.5 | 1 diwrnod | £ 304 | 31 Ion 13 |
| N | Mewnrwyd | | ½ diwrnod | £0 | 30 Tach 12 |
| O | Taflenni gwybodaeth | | 1 diwrnod | £0 | Yn ôl yr angen |
| P | Ymholiadau Mynediad at Wybodaeth | | 2 diwrnod | £0 | Ar gais |

Amlinellir y manylion ar gyfer y gweithgareddau a'r deunydd uchod yn Atodiad A – Cynlluniau Gweithredu.

**SIART GANTT RHAGLEN NATURA 2000 LIFE AR GYFER GWEITHGAREDDAU YMWYBYDDIAETH GYHOEDDUS A LLEDAENU GWYBODAETH**

**Medi 12**

| | | | | 2012 | | | | 2013 | | | | | | | | | | | | 2014 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | | Dyddiau staff | Dyddiau contractwyr | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst |
| E.1 | Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a Lledaenu Gwybodaeth | 4.0 | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| E.2 | Creu a chynnal gwefan y prosiect | 2.5 | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ |
| E.2 | Creu fideos YouTube | 2.5 | 30 | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| E.3 | Bwletinau a deunydd briffio - cylchlythyr | 5.5 | | | | | | | ■ | | | | | ■ | | | | | ■ | | | | | ■ | | | |
| E.3 | Bwletinau a deunydd briffio - adroddiad lleygwr | 6.5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ |
| E.3 | Bwletinau a deunydd briffio - cyflwyniadau Powerpoint | 1.0 | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| E.3 | Bwletinau a deunydd briffio - taflen | 2.5 | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| E.3 | Bwletinau a deunydd briffio - taflen cwestiynau cyffredin | 1.0 | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| E.4 | Y wasg a'r cyfryngau - lansiad cyhoeddusrwydd | 1.5 | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| E.4 | Y wasg a'r cyfryngau - datganiadau i'r cyfryngau | 2.5 | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | |
| E.4 | Y wasg a'r cyfryngau - mynychu digwyddiadau | 1.0 | | | | | | | | | | | | ■ | | ■ | | | | | | | | | | ■ | |
| E.4 | Y wasg a'r cyfryngau - erthyglau | 4.0 | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | |
| E.5 | Hysbysfwrdd | 1.0 | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| (E.2) | Mewnrwyd a ffynnon | 0.5 | | | | ■ | | | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ | | | | ■ |
| (E.3) | Taflenni gwybodaeth | 1.0 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| (E.3) | Ymholiadau mynediad at wybodaeth | 2.0 | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

O daenlen siart Gantt Rhaglen Natura 2000 LIFE, DCT-12-284075